8 Rhagfyr 2011

Horizon yn penodi Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid newydd

Heddiw mae Horizon Nuclear Power wedi cyhoeddi bod Richard Foxhall wedi'i benodi'n Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Wylfa.

Mae Richard yn ymuno â thîm Horizon o Magnox lle roedd yn gyfrifol am gyfathrebu ar draws sawl prif safle niwclear y cwmni, gan gynnwys Trawsfynydd a Wylfa. Mae ganddo brofiad sylweddol o'r diwydiant niwclear a dealltwriaeth fanwl o raglenni ymgysylltu â'r gymuned ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

Ac yntau'n Rheolwr Cyswllt Rhanddeiliaid Wylfa, bydd Richard wedi'i leoli ar Ynys Môn a bydd yn gyfrifol am arwain prosesau cyfathrebu Horizon yng Ngogledd Cymru. Bydd yn chwarae rôl hanfodol wrth helpu i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2012 ar gynigion ar gyfer gorsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa.

Dywedodd Richard: "Mae'n bleser mawr cael ymuno â Horizon yn y cyfnod cyffrous hwn. Mae'r prosiect yn dal i fynd o nerth i nerth ac wrth i ni nesáu at y cyfnod ymgynghori, mae'n bwysig ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am ein cynlluniau sydd ar y gweill. Byddaf yn canolbwyntio ar hyn, a byddaf yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac unigolion ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru i annog cyfranogiad yn y prosiect ac i godi ymwybyddiaeth o'r budd a ddaw yn ei sgil i'r ardal."

Dywedodd Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safleoedd yn Horizon: "Mae penodiad Richard yn cryfhau ein tîm ymhellach ac yn dod â llawer iawn o wybodaeth a phrofiad i'r prosiect. Cymraeg yw ei iaith gyntaf ac mae'n ei siarad yn rhugl. Mae'n deall sut mae'r diwydiant niwclear yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Bydd yn gaffaeliad mawr ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag ef."

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu anfonwch e-bost at ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

DIWEDD

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Leon Flexman – 07989 493320 neu leon.flexman@horizonnuclearpower.com
Claire Loveday – 07717 300379 neu claire.loveday@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

Mae Horizon Nuclear Power Ltd yn fenter ar y cyd a sefydlwyd yn 2009 gan E.ON UK a RWE npower. Mae'r cwmni wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Swydd Gaerloyw.

Byddai gorsaf pŵer niwclear newydd Wylfa yn cyflenwi digon o drydan carbon isel ar gyfer dros bum miliwn o gartrefi. Disgwylir y byddai oddeutu 5000 o swyddi'n cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu ac oddeutu 800 o swyddi gweithredol parhaol.

www.horizonnuclearpower.com